

Sut mae ysgol yn datblygu un agwedd ar ei Chynllun Datblygu Ysgol: adroddiad sy'n adfyfyrio'n feirniadol ar y camau gweithredu, yr effaith a'r sylfaen dystiolaeth.

Rhagarweiniad

Nod yr aseiniad yma bydd i drafod ac i adfyfyrio yn feirniadol ar sut mae ysgol yn datblygu un agwedd ar ei Chynllun Datblygu Ysgol (CDY), gan edrych ar y camau gweithredu, yr effaith a'r sylfaen dystiolaeth. Nodir Llywodraeth Cymru (2014) bod 'codi safonau addysg a gwella deilliannau dysgwyr' yn hollbwysig. Hefyd, nodir bod gwella ysgolion 'yn gynaliadwy yn cael ei gefnogi gan gynllunio tymor byr a hirdymor effeithiol, sydd wedi'i gyplysu â thargedau heriol' (Llywodraeth Cymru, 2014). Dyma yw pwrpas CDY, i greu cynllun effeithiol a manwl sydd yn mynd ati i dargedu meysydd sydd angen ysgolion ei ddatblygu.

Mae'r ysgol a drafodwyd yn y traethawd yma yn ysgol pob oed, cyfrwng Cymraeg ac wedi'i leoli yn Sir Benfro. Er mwyn cydlynu gyda chanllawiau BERA (2018) byddaf yn cyfeirio ato fel Ysgol X trwy gydol yr aseiniad. O ran adroddiad Estyn yr ysgol dan sylw, fe'i hysgrifennwyd yn 2016. Er bod hyn yn meddwl y gall yr ystadegau a rhifau a thrafodwyd yn yr adroddiad wedi newid erbyn hyn, bydd cyfeiriadau ato yn yr aseiniad yma gan y bydd yr ystadegau o natur debyg. Yn 2016, roedd gan yr ysgol 906 o ddysgwyr, gyda 126 ohonynt yn y chweched dosbarth. Roedd bron pob dysgwr yn gallu siarad Cymraeg yn rhugl, ond y lleiafrif ohonynt yn dod o gartrefi Cymraeg, sef 43%. Roedd gan 21% o ddysgwyr Anghenion Dysgu Ychwanegol, ac roedd 4.9% o ddysgwyr yn gymwys ar gyfer prydiau ysgol am ddim (Estyn, 2016). Roedd y cynllun datblygu yma wedi cael ei ysgrifennu gan uwch dîm arwain Ysgol X, gyda chymorth y rhanddeiliaid sydd yn ymwneud ag e.

Yn dilyn trafodaeth o Gynlluniau Datblygu Ysgol yn gyffredinol, byddaf yn ffocysu'r traethawd yma ar un o dargedau Cynllun Datblygu'r Adran (CDA) Gerdd yr ysgol, sef y bwlch rhwng canlyniadau merched a bechgyn ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 3, blwyddyn 9. Ysgrifennwyd y CDA yma gan bennaeth yr adran er mwyn gallu sicrhau gwelliant yr adran ar draws y flwyddyn academaidd, a gwella eu hystadegau wrth ddefnyddio'r targedau penodol hyn.

Adolygiad Llenyddiaeth

Trwy archwilio toreth o lenyddiaeth berthnasol, mae'n amlwg bod nifer o ddiffiniadau o CDY, y broses o ddatblygiad a beth sydd yn ei wneud yn effeithiol. Dywed Fraser (2007), bod

Cynlluniau Datblygu Ysgol yn un o'r swyddogaethau pwysicaf o reoli ysgolion, ac mae'n rhaid bod ysgolion yn strategol wrth ddarparu addysg ar gyfer nid yn unig y tymor byr, ond hefyd y tymor canolig a hir. Yn yr un modd, cytunaf Hasbi et. al (2023) bod angen cynllunio strategol er mwyn cyflawni unrhyw gynlluniau ysgol yn effeithiol, ac felly'r Cynllun Datblygu Ysgol yw'r sylfaen i wneud hyn. Dylai'r cynlluniau hyn cael eu creu ar y cyd gan nifer o wahanol aelodau, megis arweinwyr cymunedol, rhanddeiliaid, pwyllgorau ysgol ac unrhyw bartïon eraill sydd â diddordeb yn lles a llwyddiant yr ysgol (Hasbi et. al, 2023). Mae'n rhaid i'r cynllunio strategol cynnwys blaenoriaethau, cynhwysiant, gwerthusiadau a nodau clir (Mohammed et. al, 2020). Bydd yr adrannau yma i gyd wedi'i chyfuno yn sicrhau cynllun sydd yn gytbwys ac yn mynd i'r afael â holl wendidau ac anghenion yr ysgol ac yn eu targedu.

Dywed Vangronigen & Meyers (2019) y dylai CDY ar y lleiaf cynnwys y pethau yma er mwyn iddo fod yn effeithiol: nodau sefydliadol i'w cyflawni o fewn cyfnod penodol o amser a champau i'w cyrraedd nhw, llinellau amser i gyfarwyddo gweithrediad y camau yma, a chanlyniadau mesuradwy i bennu i ba raddau y mae'r nodau yma wedi'i chyflawni. O ran y 4 diben i ddysgwyr, mae Llywodraeth Cymru yn datgan bod angen i gynlluniau datblygu ysgol cefnogi'r syniad ac wrth wneud hyn y byddant yn cefnogi'r dysgwyr i lwyddo gan fod yr ysgol gyfan yn llwyddo yn well ar y cyd (Llywodraeth Cymru, 2020). Yn ei dro bydd hyn yn cyfrannu at y derbyniad o'r 4 diben a byddant yn gweithio'n fwy effeithiol.

Wrth gyfeirio at adroddiad 'Canllawiau Gwella Ysgolion' Hwb (2014), mae'n amlwg bod angen i ysgolion teilwra eu CDY i gysylltu yn unol ag egwyddorion Cwricwlwm i Gymru (Llywodraeth Cymru, 2020). Nodir yr adroddiad Hwb bod fframwaith CiG ar gyfer gwerthuso, gwella ac atebolrwydd yn sicrhau 'gwelliant cynaliadwy mewn ysgolion ac yn ysgogi ymddygiad ac ymarferion sy'n ofynnol' ganddynt, ac er mwyn gwneud hyn dylai ffocws yr ysgol wedi'i harwain gan 'waith hunanwerthuso, cynllunio gwelliannau a chymorth effeithiol' (Hwb, 2020). Awgrymir hyn bod y cydweithrediad rhwng pob parti sy'n ymwneud a chreu'r cynllun yn holl bwysig er mwyn meithrin cymorth effeithiol, a hefyd bod angen hunanwerthusiadau yn gyson er mwyn gallu ffocysu ar dargedau priodol. Wrth gasglu data trwy gydol y flwyddyn academaidd, gwerthuso arferion ei gilydd, dyma sut mae'r rhanddeiliaid yn creu targedau'r CDY. Cytunwyd Fullan (1999) a datganiad Hwb, gan y dywed ef fod angen ddefnyddio llawer o wahanol rhanddeiliaid i greu CDY effeithiol. Mae ymgysylltiad yr aelodau amrywiol yma i gyd, megis athrawon, rhieni, ac aelodau'r o'r gymuned, yn arwain at broses gynllunio fwy cynhwysol gyda thebygolrwydd gwell o llwyddiant (Fullan, 1999).

Mae damcaniaeth Bronfenbrenner (1979) yn un bwysig a pherthnasol wrth drafod CDY. Mae ei theori o'r systemau bio-ecolegol yn trafod pedwar system mewn bywyd plentyn, y cysylltiad rhwng un system a'r llall, a sut mae pob un yn dibynnu ar ei gilydd. Y system

gyntaf yw'r system ficro, sydd yn ffocysu ar y plentyn a phawb sydd yn agos iddynt yn eu hamgylchedd agosaf, megis teulu, ffrindiau ac ysgol. Y system olaf, sef y system facro, yw'r un sydd yn cysylltu gyda'r gymuned ac amodau cymdeithasol yr unigolyn (Stanley & Kuo, 2022). Trwy archwilio'r ddamcaniaeth hon, gall ysgolion gwneud penderfyniadau wrth greu eu CDY bydd yn sicrhau bod nid yn unig bywydau ysgol y dysgwyr yn gwneud cynnydd yn y flwyddyn academiaidd, ond hefyd wrth fod hyn yn digwydd bydd eu cysylltiad â'u perthynas â'u cymunedau felly yn cael ei effeithio a'i wella, oherwydd bod y system ficro yn gweithio ei ffordd allan i'r system facro (Stanley & Kuo, 2022).

Un o brif ffocysau cynllun datblygu'r adran gerdd yn Ysgol X yw parhau i leihau'r bwlch rhwng lefelau bechgyn a merched ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 3, gyda'r bechgyn yn gorffen y flwyddyn academiaidd a lefelau yn is na'r merched. Wrth ymchwilio i'r pwnc hwn, gweler bod llawer o lenyddiaeth o'i amgylch. Dywed Quenzel & Hurrelman (2012) yn eu herthygl bod y genhedlaeth bresennol o ferched yn eithriadol o uchelgeisiol ac academiaidd, ac yn dyheu am gymwysterau rhagorol wrth adael ysgol. Wrth edrych ar ganlyniadau PISA (2018), gweler bod canlyniadau merched yn gyffredinol yn uwch ac yn well na'i gymheiriaid gwrywaidd, gyda'r merched yn dominyddu yn yr adrannau darllen, ysgrifennu, a'r gwyddorau naturiol. Yr unig adran lle llwyddodd bechgyn o flaen merched oedd yn fathemateg, ac nid oedd bwlch enfawr rhwng yr ystadegau hyn o hyd (PISA, 2018).

Cytunwyd Broecke & Nicholls (2008) bod myfyrwyr benywaidd yn ennill cymwysterau uwch. Dywed y damcaniaethwyr bod myfyrwyr benywaidd yn fwy tebygol o gyflawni dosbarthiadau gradd well wrth gwblhau eu graddau israddedig na myfyrwyr gwrywaidd. Mae hyn yn arwain at gwestiynu o pam bod hyn yn wir, a nodir Mathews et. al (2009) un rheswm am hyn yw oherwydd ei fod yn fwy nodweddiadol o ferched i greu perthnasoedd cryfach gydag athrawon, gan adeiladu deialog agored gwell gyda nhw am eu gwaith academiaidd a'u cyflawniad.

Datblygu pwynt gweithredu

Wrth greu ei CDA, aeth adran gerdd Ysgol X ati i ddadansoddi a gwerthuso data a gwybodaeth y flwyddyn flaenorol er mwyn ddod o hyd i unrhyw wendidau neu fannau oedd angen gwelliant. Gwnaethant wneud hyn wrth ddadansoddi data, er enghraifft lefelau diwedd blwyddyn dysgwyr, canlyniadau asesiadau a pherfformiad myfyrwyr ac unrhyw gamau monitro o'r flwyddyn flaenorol. Hefyd, fe wnaethant graffu ar lyfrau. Canlyniad y gwerthusiad hwn oedd bod bwlch rhwng bechgyn a merched Blwyddyn 9 o ran faint ohonynt a orffennodd y flwyddyn academiaidd gyda Lefel 6+, yn benodol bod 7.8% yn llai o fechgyn yn gorffen y cyfnod yma gyda'r lefel yma yng ngherddoriaeth (gweler Atodiad rhif 1) (Ysgol X, 2023).

Wrth gyfeirio at ganllaw Llywodraeth Cymru (2014) (gweler Atodiad rhif 2), dyma oedd y rhan hunan fyfyrion o'r broses creu CDA gan fod yr adran wedi llwyddo i ddarganfod rhywbeth roedd angen ei wella a chreu strategaeth i geisio cyrraedd hyn. Yn dilyn canllaw Llywodraeth Cymru (2014) bydd rhaid i'r adran gerdd dilyn y camau o: cynllunio'n strategol, gwneud gwelliant a gweithredu ac yna adolygu'r effaith, a dyma beth fyddaf yn trafod isod.

Dywed Schildkamp et. al (2012) bod rhai yn dadlau mai'r unig ffordd i wella lefel o gynnydd cyflawniad myfyrwyr yw i'r ysgol seilio eu penderfyniadau ar ddata. Hefyd, maent yn grybwyll bod defnyddio data i wneud penderfyniadau yn helpu i dynnu gwleidyddiaeth ac ideoleg oddi ar benderfyniadau, er mwyn ffocysu a chanolbwyntio'n well ar yr addysgu a'r dysgu. Defnyddia'r ysgol gyfan ffordd o dracio canlyniadau ar y rhaglen SIMS, sydd yn dangos lefelau ac is-lefelau i bob dysgwr yn yr ysgol. Mae hyn yn ei wneud yn hawdd cadw data manwl unigol i bob dysgwr. Gan mai'r peth mwyaf pwysig yw sicrhau cynnydd y dysgwyr a'r 'deilliannau dysgu gorau' iddynt (Cwricwlwm i Gymru, 2020), mae adran gerdd Ysgol X yn llwyddo i ddefnyddio eu data i greu targedau a fydd yn gwella gwersi'r dysgwyr a'u canlyniadau academiaidd yn y pwnc yn y pen draw.

Mae'r cynllun a grëwyd gan yr adran yn amlinellu'n glir cynlluniau strategol a chamau gweithredu er mwyn cyflawni'r weledigaeth a nodir uchod. Mae'r ddogfen Excel a ddefnyddiwyd gan yr adran yn hynod o fanwl, gan ddangos pwy sydd yn gyfrifol o gyflawni'r targed a monitro cerrig milltir i werthuso cynnydd, camau gweithredu, gwerthusiad diwedd cyfnod, a ffynhonnell cyllid a chost (Ysgol X, 2023). Mae'r lefel yma o fanylder yn hynod effeithiol er mwyn sicrhau bod y cynnydd trwy gydol y flwyddyn yn cael ei dracio'n drylwyr. Mae'r defnydd hyn o fonitro a thracio yn hynod effeithiol i nodi i ba raddau mae'r dysgwyr dan sylw yn gwella yn academiaidd, yn enwedig dysgwyr sydd yn tangyflawni. Dywed Safer & Fleischman (2005) y mai monitro cynnydd myfyrwyr yw'r ymarfer mwyaf effeithiol a ddefnyddiol i athrawon, gan y maent yn gadael iddynt werthuso effeithiolrwydd eu haddysgu yn barhaus a gwneud penderfyniadau cyfarwyddiadol sydd yn fwy gwybodus.

O ran camau gweithredu'r cynllun, yn gyntaf nodwyd bod yna grŵp o fechgyn ffocws wedi cael eu dewis sydd yn tangyflawni yn y pwnc y mwyaf yn y flwyddyn, ac wrth ffocysu arnyn nhw yn eu gwersi gall yr athro sicrhau eu bod nhw yn canolbwyntio ar y gwaith, yn cwblhau pob tasg, a hefyd yn deall pob elfen o'r gwaith pwnc. Mae Atodiad rhif 3 yn dangos lefel y bechgyn yma yng nghanol y flwyddyn academiaidd, ar ôl i'r athrawon cael siawns i allu edrych nôl ar ddata roeddynt wedi casglu dros y tymor gyntaf. Gweler lliwiau coch, melyn a gwyrdd, rhif y lefel ac esboniad byr o'u cyflawniad hyd yn hyn. Mae'r lliwiau yn dangos y wanaf hyd at y fwyaf cryf o'r grŵp.

Un o'r camau gweithredu arall yw bod 'tasgau penodol e.e. cyfansoddi unigol a llyfryn yn Ebrill sydd yn canolbwyntio ar sgiliau gwerthuso' (Ysgol X, 2023). Dywed Bastian (2002) bod

creu cerddoriaeth yn gallu cael dylanwad cadarnhaol ar blant a'u sgiliau cymdeithasol-emosiynol. Mae rhai damcaniaethwyr hefyd wedi canfod y gall cyfansoddi helpu i gynyddu canolbwytio a chyflawniad academiaidd rhai dysgwyr (Hogenes, M., et. al, 2016). Efallai mai dyma pam y dewisodd yr adran gerdd gyfansoddi fel tasg ffocws unigol, gan y gallai o bosibl gynyddu ymgysylltiad y bechgyn yn y pwnc.

O ran adolygu effaith camau gweithredu'r targed, mae'r adran yn defnyddio'r ddogfen Excel er mwyn ysgrifennu am ba fath o gynnydd sydd wedi cael ei wneud erbyn Hydref a hefyd Pasg. Mae'r pwyntiau tracio yma yn y calendr ysgol yn sicrhau bod adolygiad yn digwydd yn arferol trwy gydol y flwyddyn, ac yn dal yr athrawon yn atebol am sut mae'r targed yn cael ei gyflawni. Hefyd, mae'r adran yn cymryd nodiadau manwl ar bob un bachgen o'r grŵp ffocws yn unigol trwy gydol y flwyddyn, er enghraifft yn Atodiad rhif 3, o'u hymgysylltiad mewn gwersi, cyfranogiad yn y gwersi ac wrth gwrs ystadegau canlyniadau. Yn ei dro, bydd y data yma i gyd yn helpu i weld os mae'r bechgyn dan sylw yn gwneud cynnydd neu beidio, ac os ddim, yn helpu i ddeall ym mha fannau mae angen newid i'r gwersi neu'r gwaith.

Adfyfrio a gwerthuso

Wrth adfyfrio yn gritigol ar CDA Ysgol X a'i werthuso, rwyf wedi ceisio archwilio i effeithiolrwydd y cynllun. Gallwn weld eu bod nhw ar hyn o bryd ddim yn llwyddo i gyrraedd y targed yma o leihau'r bwlch rhwng lefelau bechgyn a merched yng nghyfnod allweddol 3. Mae eu hystadegau yn y daflen Excel yn dangos bod y bwlch ar hyn o bryd 'wedi cynyddu o flwyddyn ddiwethaf', 12% i gymharu â 7.8% (Ysgol X, 2023). Ysgrifennwyd y datganiad yna ar ddiwedd tymor cyntaf y flwyddyn academiaidd yma. Mae hyn yn golygu bod gan yr adran y ddau dymor nesaf i geisio llwyddo yn eu targed o gau'r gap yma. Gan gyfeirio at Atodiad rhif 3 unwaith eto, bwriad yr adran yw i bob un o'r bechgyn yma i godi un lefel erbyn diwedd y flwyddyn. Bydd hyn yn ei roi ar darged.

Gweler wrth y drafodaeth uchod bod yr adran wedi gwneud y targed yma yn flaenoriaeth, wrth gasglu data manwl a chadw nodiadau ar gynnydd y bechgyn ffocws. Gan fod yr ysgol yn gwneud hyn, yn amlwg maent yn dilyn damcaniaeth Schildkamp (2012). Er mwyn datblygu ymhellach a sicrhau gwell cynnydd yn fwy cyflym i'r grŵp o fechgyn ffocws, efallai gall yr adran edrych ar ffyrdd newydd o gael y dysgwyr i ymgysylltu yn well gyda'r pwnc ac yn y gwersi y tu hwnt i dasgiau cyfansoddi. Wrth ymchwilio i mewn i strategaethau gwahanol, fe wnes i ddod ar draws datganiad y gall fod o fydd i adran gerdd Ysgol X, sef bod llawer o fechgyn yn dysgu'n well pan mae elfen o gystadleuaeth i'r dasg neu'r wers (Reichart, M., & Hawley, R., 2010). Efallai gellir adran gerdd yr ysgol cymryd hon i ystyriaeth

wrth gynllunio a cheisio ymgorffori strategaethau cystadleuol, megis gemau neu gwisiau, i mewn i'w gwersi er mwyn ceisio gwella ymgysylltiad y bechgyn ffocws.

Casgliad

I gloi, mae'n amlwg mae arweinyddiaeth sy'n hyrwyddo cynwysoldeb, gwneud penderfyniadau a yrrir gan ddata, a chydweithio â rhanddeiliaid sy'n hanfodol ar gyfer gweithredu effeithiol. Wrth symud ymlaen yn fy nhaith unigol o addysgu byddaf yn sicrhau i gadw nodiadau manwl o bob math o ddata yn fy nosbarth, megis canlyniadau asesiadau mewnol ac allanol, a hefyd monitro le mae dysgwyr fy nosbarth arni yn gyson. Wrth wneud hyn, gobeithiaf y bydd digon o fanylder a gwybodaeth gennyf er mwyn gallu creu neu ychwanegu at CDA yn effeithiol, er mwyn creu targedau priodol bydd yn helpu creu cynnydd dros y flwyddyn academaidd.


Atodiadau

Atodiad Rhif 1: Lefelau bechgyn a merched diwedd Blwyddyn 9 blwyddyn diwethaf.

		Lefel Derfynol CA3		Targed CA3		Canlyniad v Targed	Merched		Bechgyn		Gwahaniaeth	PYD		ADY					
		Nifer	%	Nifer	%		Nifer	%	Nifer	%		%	Nifer	%	D		GY+		GY
Cerdd	L5+	131	100.00%	136	100.00%	0.00%	67	100.00%	64	100.00%	0.00%	8	100.00%	1	100.00%	1	100.00%	6	100.00%
	L6+	126	96.18%	114	83.82%	12.36%	67	100.00%	59	92.19%	-7.81%	8	100.00%	1	100.00%	1	100.00%	5	83.33%
	L7+	38	29.01%	25	18.38%	10.63%	18	26.87%	20	31.25%	4.38%	1	12.50%	0	0.00%	1	100.00%	0	0.00%

Ysgol X, (2023) Cynllun Gwella Adran, 2023-2024. Adroddiad mewnol Ysgol X. Heb ei gyhoeddi.

Atodiad Rhif 2: Fframwaith Cynllun Datblygiad ysgol



Llywodraeth Cymru (2014). *Cynlluniau datblygu ysgolion: Canllawiau*. [Ar-lein] Available at: <https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-03/cynlluniau-datblygu-ysgolion.pdf>. [Accessed 01/03/24].

Atodiad Rhif 3: Lefelau bechgyn grwp ffocws yr Adran Gerdd.

9	Lefel	
E	5	Wedi perfformio'n dda ar gyfer yr uned ukulele. Rhaid canolbwyntio ar y cyfansoddiad ffanffer ac esiamplau o waith clust i godi ei lefel gorffenedig
E	5	Diffyg gallu – anhebygol o godi i L6
E	5	Agwedd anffodus. Dim yn cwblhau Gwaith yn enwedig Gwaith ysgrifenedig. Colli ffocws yn ystod Gwaith ymarferol
E	5	Wedi trosglwyddo o ysgol Caer Elen. Sicr o'r gallu i gael L6 ar ddiwedd blwyddyn 9 ond angen tystiolaeth gadarn.
L	5	Diffyg gallu - anhebygol o godi i L6
P	5	Wedi perfformio'n dda ar gyfer yr uned ukulele. Rhaid canolbwyntio ar y cyfansoddiad ffanffer ac esiamplau o waith clust i godi ei lefel gorffenedig
P	5	Wedi perfformio'n dda ar gyfer yr uned ukulele. Rhaid canolbwyntio ar y cyfansoddiad ffanffer ac esiamplau o waith clust i godi ei lefel gorffenedig
P	5	Wedi perfformio'n dda ar gyfer yr uned ukulele. Rhaid canolbwyntio ar y cyfansoddiad ffanffer ac esiamplau o waith clust i godi ei lefel gorffenedig
R	5	Ymddygiad ar adegau. Presenoldeb yn broblem.
R	5	Wedi trosglwyddo o ysgol arall ym mlwyddyn 8.
R	5	Presenoldeb yn broblem enfawr yma. Gallu perfformio L6 yn sicr. Angen cefnogaeth ar Lefi i gwblhau BOB tasg o fewn y dosbarth heblaw am yr elfen perfformio.
S	5	Agwedd wedi gwella eleni. L6 ar gyfer tasg perfformio.
S	5	Diffyg ymdrech yn gyffredinol.
T	5	Presenoldeb yn broblem. Diffyg ymdrech.
T	5	Agwedd wedi gwella eleni. L6 ar gyfer tasg perfformio.
T	5	Diffyg ymdrech yn gyffredinol.
T	5	Agwedd wedi gwella eleni. L6 ar gyfer tasg perfformio.

Ysgol X, (2023) Cynllun Gwella Adran, 2023-2024. Adroddiad mewnol Ysgol X. Heb ei gyhoeddi.

Rhestr Gyfeirio

Bastian H. G. (2002). *Musik(erziehung) und ihre Wirkung. Eine Langzeitstudie an Berliner Grundschulen* [Music education and its effects. A long-term study in elementary schools in Berlin]. Mainz: Schott.

British Educational Research Association (BERA, 2018) Ethical Guidelines for Educational Research, fourth edition, London. Available at: <https://www.bera.ac.uk/researchers-resources/publications/ethicalguidelines-for-educational-research-2018> [Accessed 01/03/24].

Broecke, S. and Nicholls, T., 2007. Ethnicity and degree attainment.

Bronfenbrenner, U. (1979). *The Ecology of Human Development: Experiments by Nature and Design*. [online] Cambridge: Harvard University Press. Available at: https://khoerulanwarbk.files.wordpress.com/2015/08/urie_bronfenbrenner_the_ecology_of_human_developbokos-z1.pdf [Accessed 01/03/24].

Cotton, D.R.E., Joyner, M., George, R. and Cotton, P.A. (2016). Understanding the gender and ethnicity attainment gap in UK higher education. *Innovations in Education and Teaching International*, 53(5), tud.475–486. doi:<https://doi.org/10.1080/14703297.2015.1013145>.

Estyn (2016) Ysgol [REDACTED] report. Available at: [https://www.estyn.gov.wales/system/files/2020-08/\[REDACTED\]2520en.pdf](https://www.estyn.gov.wales/system/files/2020-08/[REDACTED]2520en.pdf) [Accessed 01/03/24].

Fraser, A., 2007. Developing Innovation in Education: A Disciplined Undertaking. *This paper is based on a presentation, "Creativity and Innovation in Education: Moving Beyond Best Practice, 1*.

Hasbi, S., Hanim, Z. and Husain, S.B., 2023. The implementation optimization of school development plan in flood disaster mitigation policy in tropical rainforest (Case study at state junior high school 5 Samarinda). *Social Sciences & Humanities Open*, 7(1).

Hogenes, M., Van Oers, B., Diekstra, R.F. and Sklad, M., 2016. The effects of music composition as a classroom activity on engagement in music education and academic and music achievement: A quasi-experimental study. *International Journal of Music Education*, 34(1), tud.32-48.

Llywodraeth Cymru, (2020), Hwb. Available at: <https://hwb.gov.wales>. [Accessed 01/03/24].

Llywodraeth Cymru (2020). *Pedwar diben y cwricwlwm i Gymru The four purposes of the curriculum for Wales*. [Ar-lein] Available at: <https://www.gov.wales/sites/default/files/publications/2018-03/the-four-purposes-of-the-curriculum-for-wales.pdf>. [Accessed 01/03/24].

Llywodraeth Cymru (2014). *Cynlluniau datblygu ysgolion: Canllawiau*. [Ar-lein] Available at: <https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-03/cynlluniau-datblygu-ysgolion.pdf>. [Accessed 01/03/24].

Matthews, J.S., Ponitz, C.C. & Morrison, F.J. (2009) "Early Gender Differences in Self-Regulation and Academic Achievement," *Journal of educational psychology*, 101(3), tud. 689–704. Available at: <https://doi.org/10.1037/a0014240>.

Meyers, C.V. and VanGronigen, B.A. (2019). A lack of authentic school improvement plan development. *Journal of Educational Administration*, 57(3), tud.261–278.
doi:<https://doi.org/10.1108/jea-09-2018-0154>.

Mohammed, J.A., Mohammad, M.Q. and Muhaibs, A.A., 2020. The Extent of Implementing the School's Development Plan from the Point of View of Supervisors. *International Journal of Psychosocial Rehabilitation*, 24(05).

PISA (2018), OECD iLibrary. Available at: <https://www.oecd-ilibrary.org/docserver/f56f8c26-en.pdf?expires=1709493024&id=id&accname=guest&checksum=FAF61276CC5BB50B53E2501AE29435ED> [Accessed 01/03/24].

Quenzel, G. and Hurrelmann, K. (2012). The growing gender gap in education. *International Journal of Adolescence and Youth*, 18(2), tud.69–84.
doi:<https://doi.org/10.1080/02673843.2012.665168>.

Reichert, M. & Hawley, R., 2010. *Reaching boys, teaching boys: Strategies that work--and why*. John Wiley and Sons.

Safer, N. and Fleischman, S., 2005. Research matters: How student progress monitoring improves instruction. *Educational Leadership*, 62(5), tud.81-83.

Schildkamp, K., Lai, M.K. and Earl, L. eds., 2012. Data-based decision making in education: Challenges and opportunities.

Stanley, K. & Kuo, N.-C. (2022). 'It Takes a Village': Approaching the Development of School-Family-Community Partnerships through Bronfenbrenner's Socio-Ecological Perspectives. *Journal of Human Sciences and Extension*, 10(1).
doi:<https://doi.org/10.54718/cqbw6379>.

Ysgol X, (2023) Cynllun Gwella Adran, 2023-2024. Adroddiad mewnol Ysgol X. Heb ei gyhoeddi.